ETHOLIADAU CYNULLIAD CYMRU 2003: Yr her werdd

Friends of the Earth Cymru

Cyfeillion y Ddaear Cymru

Beth all Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei wneud i chi?

Ar 1 Mai byd Cymru'n pleidleisio i ethol aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru'n gosod her i ymgeiswyr i roi'r amgylchedd yn galon i'r etholiad.

Pam fod y Cynulliad o bwys?

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y grym i wneud gwir wahaniaeth ar nifer o faterion amgylcheddol a dangos arweiniad positif i weddill y DG. Ar faterion GM, gwastraff, ynni, cludiant a chynllunio, Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gwneud y penderfyniadau ac yn siapio Cymru.

"Edrychir ar Gymru fel un o arweinwyr byd ar ddatblygiad cynaladwy. Mae'n un o dair llywodraeth yn unig drwy'r byd sydd â dyletswydd gyfreithiol tuag at ddatblygiad cynaladwy ... Mae honno'n fraint fawr, yn gyfrifoldeb mawr ac yn gyfle mawr. Ond dim ond y dechrau yw hyn ... mae penderfyniadau anodd i'w gwneud gydag ynni a newid hinsawdd yn ddim ond dwy enghraifft. Ond mae'r rhain yn sialensiau na allwn droi ein cefnau arnynt. Nid yw gwneud dim yn ddewis."
Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru, Rhagfyr 2002

Yr Her Werdd: maniffesto pum pwynt

1. Cymru rhydd o GM

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru wedi ymgyrchu yn erbyn twf cnydau sydd wedi eu haddasu'n enetig (GM) yng Nghymru ers 1997.

Nid yw wedi ei brofi bod cnydau GM yn ddiogel i iechyd dynol na'r amgylchedd,

Mae gwyddoniaeth GM yn newydd ac mae'r arbrofion gwyddonol wedi eu cynnal yn bennaf gan y diwydiannau biotechnoleg eu hunain.

Gall cnydau GM wenwyno cnydau nad sy'n GM a chnydau organig.

Beth mae'r Cynullad wedi ei wneud?

Mae gan y Cynulliad gonsensws traws bleidiol yn erbyn GM yng Nghymru. Ym mis Mai 2000 pleidleisiodd yn unfrydol i basio cynnig yn cyfyngu ar dyfiant cnydau GM arbrofol yng Nghynmru,

ni thyfwyd cnydau GM yng Nghymru yn 2002.

Beth ddylai'r Cynulliad ei wneud:

Rhwystro tyfiant masnachol cnydau GM drwy wrthod ychwanegu ChardonLL i'r rhestr hadau cenedlaethol,

gwrthwynebu i gnydau GM newydd gael eu cymeradwyo ar gyfer eu plannu yn Ewrop,

sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol annibynnol i ymdrin â materion GM.

2. Cymru ddiwastraff

Mae gan Gymru hanes trychinebus o ailgylchu, mae cymunedau'n byw nesaf at gladdfeydd sy'n gollwng a gallai Cymru gael ei bygwth gyda chynigion ar gyfer llosgyddion halogedig sy'n ysu am sbwriel,

caiff 93 y cant o wastraff a gesglir gan gynghorau yng Nghymru bob blwyddyn ei gladdu mewn claddfeydd,

a dim ond 7 y cant gwarthus a ailgylchwyd (2000/2001).

Beth mae'r Cynullad wedi ei wneud?

Gosododd strategaeth gwastraff y Cynulliad (2002) dargedau ailgylchu uwch nag yn Lloegr. Serch hynny nid yw'r Cynulliad wedi mynd yn ddigon pell a gallai Cymru gael ei bygwth gan losgyddion sy'n llygru.

Beth ddylai'r Cynulliad ei wneud:

Sefydlu Cymru'n genedl ddiwastraff o fewn 25 mlynedd gyda thargedau clir ac arian i alluogi cynghorau i'w cyrraedd,

peidio adeiladu llosgyddion newydd am 10 mlynedd.

(trosodd…)

3. Cludiant i bawb

Er ymrwymiad y Cynulliad i ddatblygiad cynaladwy ni fu fawr o symud ym mhatrwm gwario dros y blynyddoedd diwethaf o adeiladu ffyrdd traddodiadol i gludiant cyhoeddus a lleihau dibyniaeth ar geir.

Beth mae'r Cynulliad wedi ei wneud?

Parhau i wario mwy ar ffyrdd na buddsoddiad mewn cludiant cyhoeddus,

dal i gredu bod ffyrdd newydd yn angenrheidiol ar gyfer twf economaidd Cymru,

gwrthod cynigion ar gyfer maes awyr rhyng-gyfandirol yn Severnside, ger Casnewydd.

Beth ddylai'r Cynulliad ei wneud:

Ailgyfeirio gwariant cludiant o adeiladu ffyrdd i gludiant cyhoeddus, seiclo a cherdded,

dweud na wrth ddeuoli'r A40 yn Sir Benfro a datgan na fydd yn adeiladu ffordd liniaru'r M4,

cefnogi cynlluniau tagfeydd traffig yng Nghaerdydd, y cymoedd a phrif ganolfannau eraill yng Nghymru.

4. Cefnogi dyfodol ynni effeithlon ac adnewyddadwy

Mae angen i Gymru symud ymlaen gyda thechnolegau adnewyddadwy ac ynni effeithlon. Bydd hyn o fantais i'r amgylchedd ac yn gymorth i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Bydd methu â gwneud hyn yn gadael y drws yn agored ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear a pheryglon gwastraff niwclear, costau anferthol a therfysgaeth.

Beth mae'r Cynulliad wedi ei wneud?

Gosod targed i gael 20% o'r galw cyfredol am drydan yng Nghymru drwy ddulliau adnewyddadwy erbyn 2010,

Agorwyd 1000fed tyrbin ar y ddaear yn y DG gan Rhodri Morgan, Ionawr 2003, ger Llanrwst, gogledd Cymru,

Mae Cymru'n arwain y ffordd mewn datblygiad ynni gwynt ar y môr gyda dau gynllun wedi eu cynnig ar gyfer gogledd Cymru.

Beth ddylai'r Cynulliad ei wneud:

Gosod targedau uchel ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghymru,

datblygu technolegau adnewyddadwy newydd megis lagynau llanw,

datgan na fydd yr un orsaf ynni niwclear yn cael ei hadeiladu yng Nghymru.

5. Cyfiawnder cynllunio i Gymru

Gall penderfyniadau cynllunio siapio dyfodol cymdogaethau am genhedloedd a gallant gael canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol mawr. Yn rhy aml bydd y penderfyniadau hyn yn eithrio llais y gymuned leol.

Beth mae'r Cynulliad wedi ei wneud?

Ychydig iawn mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ei wneud hyd yma i wneud y system gynllunio yng Nghymru yn fwy agored ac atebol i bobl.

Yn ei ddiwygiad diweddar o'r system gynllunio roedd gan y Cynulliad y cyfle i roi'r hawl i 'drydydd person' (pobl sy'n cynnig sylwadau ynghylch cais cynllunio heb fod yn awdurdod lleol neu'r person sy'n gwneud y cais) i apelio i'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch penderfyniadau cynllunio – fel y caiff y datblygwr – ond gwrthododd hyd yn oed ei ystyried.

Beth ddylai'r Cynulliad ei wneud:

Cyflwyno hawl apelio trydydd person ar benderfyniadau cynllunio mwy a rhai dadleuol.

Gwasgu am newid

Pan fydd llawer o bobl yn holi gwleidyddion am yr un materion byddant yn cymryd sylw. Dangoswch i'ch ymgeisydd Cynulliad bod yr etholaeth yn poeni am yr amgylchedd a gofynnwch iddynt gymryd yr her amgylcheddol.

Gofynnwch gwestiynau i'ch ymgeisydd Cynulliad am y materion hyn pan ddaw i guro ar eich drws,

gofynnwch i weithwyr y pleidiau ar y stryd,

cymrwch ran mewn rhaglenni trafodaeth ar y radio a'r teledu.

I wybod pwy yw eich ymgeiswyr ewch draw i www.waleslink.org neu cysylltwch â Chyfeillion y Ddaear Cymru.

Cyfeillion y Ddaear Cymru
33 Oriel Arcêd y Castell
Caerdydd CF10 1BY

Ffôn: 029 2022 9577
Ebost: cymru@foe.co.uk
Gwefan: www.foecymru.co.uk

Mawrth 2000